

Atodiad 2

Diffiniadau

Nodweddion Gwarchodedig

Mae'r dudalen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y naw nodwedd warchodedig.

Oedran

Mae hyn yn cyfeirio at rywun sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. pobl 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. 18 - 30 oed).

Anabledd

Mae gan berson anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol, hir dymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Ailbennu rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd.

Ailbennu rhywedd yw'r broses o drosglwyddo o un rhyw i'r llall. Mae hunaniaeth rhywedd yn ffordd o ddisgrifio sut y mae person yn ymwneud â'i ryw.

Gall hunaniaeth rhywedd gyfateb i'r rhyw a bennwyd ar enedigaeth neu gall fod yn wahanol iddo.

Mynegiant rhywedd yw ymddygiad, ystumiau, diddordebau, ac ymddangosiad person sy'n gysylltiedig â rhywedd mewn cyd-destun diwylliannol penodol, yn benodol yn ymwneud â chategorïau o fenyweidd-dra neu wrywdod. Mae hyn hefyd yn cynnwys rolau rhywedd.

Priodas a phartneriaeth sifil

Diffinnir priodas fel uniad rhwng dyn a menyw neu gyplau o'r un rhyw. Gall parau o'r un rhyw gael eu perthynas wedi ei chydabod yn gyfreithiol drwy briodas, drwy ffurfio partneriaeth sifil, neu newid partneriaeth sifil yn briodas yn Lloegr a Chymru. Yn dilyn dyfarniad gan y Goruchaf Lys yn 2018 gall menywod a dynion gael partneriaeth sifil yn hytrach na phriodas fel yr unig opsiwn o ran uniad sy'n rhwymo mewn cyfraith. Rhaid trin partneriaid sifil yr un peth â pharau priod ar ystod helaeth o faterion cyfreithiol.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Ystyr beichiogrwydd yw bod yn feichiog neu'n disgwyl babi. Mamolaeth yw'r cyfnod ar ôl yr enedigaeth, ac yng nghyd-destun cyflogaeth mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth. Mewn cyd-destun nad yw'n ymwneud â'r gwaith, mae diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn bodoli am gyfnod o 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn llai ffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.

Hil

Mae hyn yn cyfeirio at nodwedd warchodedig arall, sef Hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, eu lliw, eu cenedl (yn cynnwys dinasyddiaeth), ethnigrwydd neu darddiad cenedlaethol.

Crefydd a chred

Fel arfer mae crefydd yn golygu'r enw a roddir iddo, ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, er mwyn ei gynnwys yn y diffiniad, dylai cred olygu rhywbeth sy'n cael effaith ar eich dewisiadau mewn bywyd neu ar y ffordd rydych yn byw.

Rhyw

Dyn neu fenyw fiolegol

Cyfeiriadedd rhywiol A yw rhywun wedi ei atynnu'n rhywiol tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall, neu'r ddau ryw.